Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gelli Aur

**Orange Way**
**Penfro**
**Sir Benfro**
**SA71 4DP**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2011**

**gan**

**Dorothy Morris**

**O dan gytundeb i**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gelli Aur/Golden Grove wedi ei lleoli yn nhref hanesyddol Penfro a chaiff ei chynnal gan awdurdod lleol Sir Benfro. Mae'n gwasanaethu ardal eang yn ddaearyddol gan fod disgyblion yn teithio o bellter er mwyn manteisio ar addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Disgrifir yr ardal yn gyffredinol fel un sydd ag amddifadedd economaidd sylweddol ac mae'r ysgol y pedwerydd uchaf o ran her yn ei theulu o ysgolion. Mae 28% o'r disgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim; ffigur sydd yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a lleol.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed ac mae cyfartaledd amser llawn o 318.5 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae canolfan iaith yr awdurdod lleol, sydd yn bennaf ar gyfer disgyblion gydag anawsterau iaith a lleferydd, wedi ei leoli yn yr ysgol. Mae uned ddwyieithog Dechrau'n Deg wedi ei lleoli ar safle'r ysgol.

Mae'r disgyblion sydd yn mynychu'r ysgol yn cynrychioli'r ystod lawn o allu. Ar hyn o bryd, mae 34% o'r disgyblion wedi ei dynodi ag anghenion addysgol arbennig (AAA) gan gynnwys dau ddisgybl sydd yn dal datganiad ar gyfer AAA. Mae'r canran hwn yn sylweddol uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Daw 94% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith. Mae pedwar disgybl yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol ac ychydig iawn o ddisgyblion sydd o dras ethnig leiafrifol. Mae tri disgybl o dan ofal yr awdurdod lleol.

Mae'r ysgol yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg mewn dwy ffrwd ar wahân. Mae naw dosbarth lle caiff disgyblion eu haddysgu trwy gyfrwng y Saesneg ac yn dysgu Cymraeg fel ail iaith, a phedwar dosbarth lle addysgir disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf.

Mae'r ysgol wedi derbyn llawer o wobrau. Mae wedi derbyn achrediad fel Ysgol Iach ac wedi cyflawni statws Ysgol Eco. Mae wedi diwallu'r safonau i ennill achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl a'r Safon Ansawdd Sgiliau Sylfaenol

Mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd ers 2002. Ers yr arolygiad diwethaf, mae niferoedd disgyblion wedi cynyddu a bu gwelliannau i'r adeiladau a'r ystafelloedd.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gelli Aur/Golden Grove yw £3352, sydd yn cymharu gydag uchafswm o £5769 ac isafswm o £2995 ar gyfer ysgolion cynradd yn yr awdurdod lleol. Mae cyllideb fesul disgybl Ysgol Gelli Aur/Golden Grove y 44$^{fed}$ uchaf allan o'r 65 o ysgolion cynradd yn Sir Benfro.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac ar brydiau cynnydd da iawn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- mae'r addysgu'n dda ar y cyfan;
- mae disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn gwrtais ac mae ganddynt ymagweddau da tuag at ddysgu;
- cynigir ystod dda o brofiadau dysgu i'r disgyblion;
- mae lefel y cymorth a'r arweiniad a ddarperir i'r disgyblion yn dda iawn;
- mae'r ffocws ar fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol i sicrhau cydraddoldeb mynediad i'r holl ddisgyblion yn gryfder amlwg.
- mae cysylltiadau gyda'r rhieni a'r gymuned yn dda.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwelliant yn dda oherwydd:

- caiff yr ysgol ei harwain a'i rheoli'n dda;
- mae'r staff yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn gweithio'n effeithiol fel tîm;
- mae'r trefniadau beunyddiol yn drefnus a chânt eu rheoli'n effeithlon;
- mae gan yr arweinwyr cwricwlaidd wybodaeth dda am safonau ac ansawdd y ddarpariaeth yn eu pynciau;
- ceir defnydd da o ddata asesu er mwyn monitro a thracio cynnydd disgyblion;
- mae mentrau newydd yn gwella agweddau o'r dysgu ac yn codi safonau;
- mae'r ethos cynhwysol o ofal a chymorth yn hyrwyddo dysgu a datblygiad y disgyblion yn effeithiol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i'r ysgol:

A1 godi cyrhaeddiad y disgyblion mwy galluog ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol;

A2 cryfhau medrau llafar ac ysgrifennu disgyblion ymhellach yn y Gymraeg a'r Saesneg;

A3 gwella safonau mewn Cymraeg ail iaith yn y ddau gyfnod allweddol;

A4 datblygu ymhellach y strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol;

A5 cynnwys golwg tymor hirach o fewn agweddau o'r cynllunio ymlaen.

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o blant yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau sydd yn sylweddol is na'r rhai a ddisgwylir yn arferol gan blant o'u hoedran. Dengys data'r ysgol fod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac ar brydiau da iawn yn eu dysgu erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae canlyniadau disgyblion saith blwydd oed at ei gilydd, fel y'u mesurir gan asesiadau athro ar ddiwedd cyfnod allweddol 1, mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, yn amrywio ychydig ond yn gyffredinol maent wedi bod yn is na rhai'r awdurdod lleol, y rhai cenedlaethol a rhai'r teulu o ysgolion. Mae canran uchel y disgyblion sydd ag AAA yn y carfannau yn effeithio er gwaeth ar y deilliannau. O'i chymharu gydag ysgolion eraill yn genedlaethol, yn seiliedig ar yr hawl i brydau ysgol am ddim, mae'r canlyniadau at ei gilydd yn rhoi'r ysgol yn y chwarteri isaf.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae canlyniadau disgyblion at ei gilydd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 wedi bod yn uwch na neu yn debyg i rai'r awdurdod lleol, y rhai cenedlaethol a rhai'r teulu o ysgolion yn y rhan fwyaf o flynyddoedd. Bu gostyngiad yn y deilliannau yn 2009 oedd yn adlewyrchiad o'r canran uchel o ddisgyblion ag AAA yn y garfan. O'i chymharu gydag ysgolion tebyg yn genedlaethol, yn seiliedig ar yr hawl i brydau ysgol am ddim, mae deilliannau at ei gilydd yn rhoi'r ysgol yn y chwarteri uchaf yn y rhan fwyaf o flynyddoedd.

Yn y blynyddoedd diweddar, dengys canran y disgyblion sydd yn cyflawni'n uwch na'r lefel disgwyliedig (lefel 3) ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 dueddiad tuag at i fyny. Yn 2010, roedd deilliannau yn uwch na chyfartaleddau'r awdurdod lleol, y rhai cenedlaethol a rhai'r teulu o ysgolion mewn Saesneg ond yn parhau'n is mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion sydd yn cyflawni'n uwch na'r lefel disgwyliedig (lefel 5) yn amrywio ychydig ond wedi bod yn is na chyfartaleddau'r awdurdod lleol, y rhai cenedlaethol a rhai'r teulu o ysgolion yn y rhan fwyaf o flynyddoedd.

Nid oes unrhyw wahaniaethau cyson ym mherfformiad y bechgyn a'r merched, er bod amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys disgyblion sydd â'r Saesneg yn iaith ychwanegol, yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni, ac ar brydiau yn rhagori ar eu targedau. Dengys llawer o'r disgyblion a dargedir ar gyfer cymorth darllen gynnydd da ac yn aml gynnydd da iawn. Yn gyffredinol, mae disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd cyson ac yn cyflawni'n dda mewn perthynas â'u gallu a'u cyfnod o ddatblygiad.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn gwrando'n dda ac yn astud yn y dosbarth. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn siarad yn rhydd yn Saesneg wrth drafod eu gwaith. Mae lleiafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn cynnig ymatebion byr gan arddangos ystod geirfa cyfyng. Yn gyffredinol, mae

medrau darllen disgyblion yn dda. Ysgrifenna'r mwyafrif o ddisgyblion yn gymwys i'w hoed a'u gallu tra bod llawer o ddisgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n hyderus mewn amrediad o arddulliau ac yn estynedig. Mae ysgrifennu lleiafrif o'r disgyblion ar draws y dosbarthiadau yn arddangos gafael ansicr o sillafu, cystrawen ac ystod gyfyng o eirfa.

Ar draws yr ysgol, defnyddia disgyblion eu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda mewn amrywiaeth o weithgareddau ar draws y cwricwlwm. Yn gyffredinol, mae safonau'n dda. Mae medrau disgyblion o ran dysgu'n annibynnol yn datblygu'n dda gyda disgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 yn benodol yn arddangos strategaethau meddwl a datrys problemau da mewn pynciau megis mathemateg, addysg gorfforol a hanes. Mae nodweddion da iawn mewn agweddau o waith y disgyblion hŷn wrth gymhwyso amrediad o fedrau TGCh yn hyderus i gefnogi eu gwaith.

Yn y ffrwd Gymraeg, mae safonau disgyblion yn y Gymraeg yn gyffredinol dda. Gwna bron yr holl ddisgyblion gynnydd da o'r amser maent yn cychwyn yn yr ysgol, gyda llawer o'r disgyblion hŷn yn sgwrsio'n hyderus mewn amrediad o sefyllfaoedd. Mewn dosbarthiadau eraill, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn siarad yn ddigonol yn estynedig. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn dda. Maent yn siarad ac ysgrifennu ar gyfer amrediad o ddibenion ond nid yw eu gafael o gystrawen gywir bob amser yn ddigon cadarn.

Mae safonau mewn Cymraeg ail iaith yn ddigonol. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall ac yn ymateb yn gywir i amrediad o gwestiynau a chyfarwyddiadau syml yn ystod gwersi, cyfnodau cofrestru ac addoli ar y cyd. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio patrymau sylfaenol a geirfa syml yn gywir mewn amrediad o dasgau. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, nid yw'r disgyblion yn gyffredinol yn ymestyn eu geirfa a'u patrymau brawddeg yn ddigonol i gynnal sgwrs syml neu i adeiladu'n gyson ar eu medrau darllen ac ysgrifennu sylfaenol.

**Lles: Da**

Mae gan yr holl ddisgyblion ymagweddau cadarnhaol tuag at fwyta'n iach ac ymarfer ac maent yn deall pwysigrwydd dilyn dull iachus o fyw. Arddangosa'r disgyblion cryn frwdfrydedd i gyfranogi mewn amrediad o weithgareddau allgyrsiol mewn perthynas â chynnal meddwl a chorff iach.

Arddangosa'r rhan fwyaf o ddisgyblion ymagweddau da tuag at ddysgu. Gweithiant yn gynhyrchiol gydag eraill ac ymdrechant yn dda i gwblhau tasgau'r gorau fedrant.

Mae ymddygiad disgyblion yn dda. Maent yn fonheddig, yn gwrtais a pharchus ac mae hyn yn amlwg ar draws yr ysgol. Mae presenoldeb ychydig yn is na chyfartaleddau lleol a Chymru gyfan. Mae'r ysgol wedi dynodi'r broblem ac wedi rhoi strategaethau ar waith sydd eisoes wedi arwain at welliant mewn presenoldeb.

Mae aelodau o'r cyngor ysgol a'r pwyllgorau eco yn rhan weithredol o wneud penderfyniadau ac yn cynrychioli safbwyntiau'r disgyblion yn dda a chyda brwdfrydedd. Maent yn gallu rhestri'r gweithredoedd a gymrwyd sydd yn ganlyniad uniongyrchol o'u mentrau megis y gweithgaredd o gerdded i'r ysgol a'r diwrnod

menter. Mae disgyblion yn datblygu amrediad da o fedrau cymdeithasol a bywyd trwy gyfranogi yn yr ystod eang o weithgareddau allgyrsiol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu da sydd yn diwallu anghenion y disgyblion. Caiff gwersi eu cynllunio'n effeithiol a rhoddant ystyriaeth dda i'r ystod eang o allu o fewn y dosbarthiadau. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau allweddol y disgyblion ar draws y cwricwlwm yn dda ar y cyfan. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau TGCh y disgyblion ym mhen uchaf cyfnod allweddol 2 yn gryfder. Nid yw'r ddarpariaeth i ddatblygu agweddau o fedrau cyfathrebu disgyblion, yn benodol eu medrau llafar ac ysgrifennu, bob amser yn ffocysu'n ddigonol ar ymestyn medrau disgyblion a hyrwyddo cywirdeb.

Mae'r ddarpariaeth i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddimensiwn diwylliant Cymru yn datblygu'n dda mewn llawer o bynciau ac ym mywyd a gwaith cyffredinol yr ysgol. Mae'r cynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn y ffrwd Gymraeg yn gyffredinol dda. Mae'n fwy anghyson yn y ffrwd cyfrwng Saesneg. Mae gweithgareddau wedi eu cynllunio ond mae'r strategaethau i hyrwyddo datblygiad cynyddol patrymau iaith a geirfa mewn gwersi iaith dynodedig ac mewn amrywiol feysydd cwricwlaidd yn llai datblygedig. Mewn ychydig o ddosbarthiadau, ceir defnydd da o Gymraeg achlysurol ar draws y dydd.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Caiff disgyblion gyfleoedd da i gymhwyso'r hyn maent wedi dysgu am ddatblygiad cynaliadwy yn eu hastudiaethau mewn pynciau eraill ac yn gyffredinol ar draws y cwricwlwm.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu'n dda ar y cyfan. Mae perthnasau gweithio da iawn rhwng y disgyblion â'r staff o fewn amgylchedd ddysgu cadarnhaol iawn. Mae athrawon yn defnyddio ystod dda o strategaethau addysgu ac adnoddau addas. Ym Mlwyddyn 6, mae nodweddion rhagorol yn y modd mae'r addysgu yn hyrwyddo medrau disgyblion ac yn eu rhan weithredol wrth arfarnu eu dysgu ar ddiwedd gwersi. Caiff cynorthwywyr dysgu eu lleoli'n effeithiol a gwnânt gyfraniad pwysig i'r dysgu. Yn yr ychydig iawn o wersi lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw tasgau bob amser yn ymestyn y disgyblion mwy galluog yn ddigonol. Mewn ychydig o ddosbarthiadau, ceir gorddibyniaeth ar daflenni gwaith.

Yn gyffredinol, mae gweithdrefnau da mewn lle i asesu cynnydd disgyblion ac i osod targedau unigol. Defnyddir deilliannau'n briodol i fwydo cynllunio pellach i ddiwallu anghenion disgyblion o wahanol alluoedd. Caiff gwaith disgyblion ei farcio'n rheolaidd ac, yn yr enghreifftiau gorau, nodir ffyrdd ymlaen yn eglur. Mae cynnwys disgyblion mewn gweithdrefnau gosod targedau yn gadarn ac maent yn gwneud cynnydd priodol wrth arfarnu'r raddfa mae'r rhain wedi eu cyflawni.

Ym mhen uchaf cyfnod allweddol 2, mae strategaethau i hyrwyddo strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n dda, ond mewn dosbarthiadau eraill maent ar gyfnod datblygol. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn darparu gwybodaeth o ansawdd da am gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned drefnus a gofalgar. Mae ystod eang o ddarpariaeth a mentrau yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Caiff rheolau a gweithdrefnau eglur eu gweithredu'n gyson ar draws yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn dda. Mae mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol er mwyn hyrwyddo mynediad at ddysgu i'r holl ddisgyblion yn greiddiol. Mae'r pennaeth a'r staff yn monitro lles disgyblion yn drylwyr ac yn cynnig cefnogaeth o safon uchel yn ôl yr angen. Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu plant.

Mae cefnogaeth yr ysgol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda iawn. Mae gweithdrefnau da i ddynodi anghenion penodol disgyblion ac i ddarparu ymyrraeth gynnar sydd yn cyfrannu at welliant mewn safonau cyflawniad. Mae cefnogaeth i ddisgyblion sydd â rhwystr i ddysgu yn arbennig o effeithiol gyda defnydd llwyddiannus iawn o gefnogaeth yn y dosbarth gan athro cefnogi arbenigol. Mae disgyblion sydd yn mynychu'r dosbarth cefnogi iaith yn derbyn cefnogaeth dda a chânt eu cynnwys yn effeithiol yn y dosbarthiadau prif ffrwd ar gyfer amrediad o weithgareddau.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda nifer o asiantaethau i ddarparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion sydd angen cefnogaeth arbenigol; mae hon yn nodwedd gref iawn o'r ddarpariaeth.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd gofalgar a chroesawgar i'r holl ddisgyblion. Mae'n cymryd i ystyriaeth ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth cefndiroedd y disgyblion; mae hon yn nodwedd dda iawn. Mae staff yn weithredol wrth hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ac mae gan yr holl ddisgyblion fynediad cyfartal i holl feysydd y cwricwlwm a'r ddarpariaeth allgyrsiol.

Caiff adeiladau'r ysgol a'r ardaloedd tu allan eu cynnal yn dda ac maent yn ddigonol ar gyfer y nifer o ddisgyblion. Mae arddangosfeydd o waith disgyblion ac o weithgareddau ysgol yn cyfoethogi'r amgylchedd dysgu. Yn gyffredinol, mae'r adnoddau'n ddigonol, o ansawdd da ac yn cydweddu'n dda i anghenion y disgyblion. Mae cynllunio da yn sicrhau'r datblygiad o adnoddau dysgu, megis yr ardal goedwig, i wella dysgu'r disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol yn dda. Mae'r pennaeth yn adnabod yr ysgol yn dda ac wedi rhoi gweithdrefnau effeithiol yn eu lle sydd yn symud yr ysgol yn ei blaen mewn llawer o feysydd. Mae'r rhain yn cynnwys addysg cyfrwng

Cymraeg, darllen a TGCh. Mae systemau rheoli perfformiad yn eu lle ac yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad proffesiynol unigol ac at welliant ysgol.

Caiff y pennaeth ei gefnogi'n dda gan yr uwch dîm rheoli, y staff a'r llywodraethwyr. Mae rolau a chyfrifoldebau wedi eu diffinio ac mae system rheoli gorfforaethol effeithiol yn datblygu'n dda.

Mae'r corff llywodraethu yn wybodus iawn am ddarpariaeth a pherfformiad yr ysgol. Mae aelodau yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn effeithiol ac, yn gyffredinol, yn gwneud cyfraniad da at rediad a datblygiad yr ysgol. Mae'r ysgol yn elwa oddi wrth gysylltiadau cadarn rhwng llywodraethwyr unigol ac arweinwyr cwricwlaidd.

Rhydd yr ysgol ystyriaeth dda i fentrau cenedlaethol. Mae wedi gwneud cynnydd da wrth weithredu'r Cyfnod Sylfaen ac wrth ymestyn y ddarpariaeth mewn TGCh. Mae'r ysgol yn cymryd rhan weithredol mewn mentrau lleol gan gynnwys rhai sydd yn ymwneud â thracio cynnydd disgyblion wrth gaffael medrau allweddol. Mae'r holl fentrau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu'r ddarpariaeth gwricwlaidd.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae diwylliant o hunan arfarnu yn gadarn yn yr ysgol ac yn ymgorffori safbwyntiau'r holl staff, y llywodraethwyr, y rhieni/gofalwyr a'r disgyblion. Mae’r defnydd effeithiol o ystod o ddata asesu yn cynnig darlun cywir i'r staff a'r llywodraethwyr o berfformiad a datblygiad yr ysgol.

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn amlinellu cryfderau a meysydd ar gyfer datblygiad yn eglur. Gwneir defnydd da o ddeilliannau ystod o weithgareddau monitro ac arfarniadau diwedd tymor a blwyddyn gan athrawon dosbarth unigol.

Ceir cysylltiadau priodol rhwng gweithdrefnau hunan arfarnu a chynllunio gwelliant ysgol. Mae cynlluniau datblygu ysgol yn cynnwys blaenoriaethau eglur ond nid yw'r cynnydd wrth gyflawni targedau bob amser yn cael ei arfarnu mewn digon o fanylder. Yn ychwanegol, mae cynlluniau datblygu yn ffocysu ar gyfnodau o flwyddyn unigol gydag ychydig o gyfeiriadau ffurfiol at amcanion mwy hir dymor.

Mae mentrau sydd yn deillio o'r hunan arfarnu wedi cael effaith dda mewn llawer o feysydd, gan gynnwys gwella safonau mewn TGCh a darllen. Gan mwyaf, mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus wrth fynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad diwethaf.

Caiff staff eu cefnogi'n dda gan system o ddatblygiad proffesiynol parhaus. Ceir cysylltiadau da gyda'r clwstwr lleol o ysgolion, ac mae'r perthnasau gydag ysgolion ymhellach i ffwrdd yn datblygu'n dda. Mae'r rhwydwaith hwn o arfer proffesiynol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ddarpariaeth gyffredinol yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol effeithiol. Gwnânt gyfraniad cadarnhaol at les disgyblion ac at godi safonau addysgol.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n dda gyda'r rhieni. Mae'r cydweithio gyda'i theulu o ysgolion lleol yn nodwedd gref ac yn effeithiol wrth hyrwyddo a rhannu syniadau yn ogystal â datblygu agweddau o'r cwricwlwm. Mae cysylltiadau effeithiol iawn gyda'r darparwyr cyn-ysgol, a'r ysgolion uwchradd perthnasol y mae'r disgyblion yn trosglwyddo iddynt.

Mae hon yn ysgol gymunedol sydd yn cynnig ystod o gyfleoedd diwylliannol, chwaraeon ac ehangach i'w disgyblion drwy'r ddarpariaeth allgyrsiol. Mae hefyd yn sicrhau fod ei chyfleusterau ar gael er defnydd y gymuned.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff adnoddau eu rheoli'n dda i gefnogi'r amgylchedd dysgu. Ceir defnydd da o staff i gyflwyno'r cwricwlwm ac i sicrhau caiff agweddau eraill o'r ddarpariaeth eu hyrwyddo'n dda. Gwneir defnydd da o amser cynllunio, paratoi ag asesu i ddatblygu'r profiadau dysgu ymhellach.

Mae gweithdrefnau da yn sicrhau caiff adnoddau eu dyrannu'n briodol i ddiwallu blaenoriaethau penodol. Bu defnydd da o grantiau i gefnogi mentrau mewn llythrennedd. Mae rhan weithredol gyfredol yr ysgol yn y 'Cynllun Gliniadur Cymru'n Un' yn cael effaith bwysig ar ddarpariaeth ac ar gyflawniad disgyblion mewn TGCh.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda swyddog cyllid yr awdurdod lleol i oruchwylio materion cyllidebol. Mae hyn yn helpu sicrhau caiff gwariant ei gynllunio'n effeithiol a'i fonitro i hyrwyddo darpariaeth o ansawdd da ac i gefnogi dysgu'r disgyblion. Ar sail hyn, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cwblhaodd lleiafrif o'r rhieni/gofalwyr yr holiadur ac roeddent oll yn mynegi boddhad cyffredinol â'r ysgol. Rhoddodd bron yr holl rieni ymatebion cadarnhaol mewn perthynas â'r rhan fwyaf o agweddau o'r ddarpariaeth. Dywedant fod eu plant yn hoffi bod yno a theimlant eu bod yn ddiogel yn yr ysgol. Credant fod eu plant yn gwneud cynnydd da a'u bod nhw fel rhieni yn cael eu hysbysu'n dda. Ychwanegant fod plant yn derbyn digon o gymorth ychwanegol mewn perthynas â'u hanghenion dysgu a bod disgyblion yn yr ysgol yn ymddwyn yn dda. Creda'r rhan fwyaf o rieni/gofalwyr fod y plant yn cael eu paratoi'n briodol i symud ymlaen i'w hysgol nesaf. Creda'r rhan fwyaf o rieni eu bod yn gallu trafod eu pryderon gyda'r ysgol.

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Cwblhaodd y rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yr holiadur. Maent bron i gyd yn teimlo'n ddiogel, yn mwynhau'r ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth ac arweiniad. Maent bron oll yn credu eu bod yn gwneud yn dda. Mae cytundeb fod yr ysgol yn eu haddysgu sut i gadw'n iach ac i ddefnyddio dulliau byw mwy iachus. Maent bron i gyd yn credu fod gwaith cartref yn eu helpu i wella safon eu gwaith. Creda'r mwyafrif fod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ar bob achlysur.

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Brin Jones | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| Amanda Bowen-Price | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mr L Johnson | Enwebai'r Ysgol |

Contractwr:
EPPC/Severn Crossing Cyf
Swît F2A T Britannic
Llandarsi
Castell-nedd SA10 6JQ

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |